

## **Cofnodion y cyfarfod arbennig o Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Prifysgol Cardiff a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020 trwy Zoom**

Yn Bresennol: Yr Athro Karen Holford (Cadeirydd), Michelle Aldridge-Waddon, Michelle Alexis, yr Athro Rudolf Allemann, Jane Chukwu, Venice Cowper, Kathryn Davies, Georgie East, Dr Sam Hibbitts, yr Athro Tim Phillips, Jude Pickett, Helen Obee Reardon, Abyd Quinn Aziz, Claire Sanders, Cadi Thomas, yr Athro Ian Weeks a Matthew Williamson [o gofnod 732].

Hefyd yn bresennol: Hayley Beckett, Yr Athro Gillian Bristow (ar ran yr Athro Kim Graham), Susan Cousins, Karen Harvey-Cooke, Natalie Hughes, Rashi Jain, Beth John [o gofnod 735 hyd at gofnod 740], Michelle Jones, Andrew Lane, Ben Lewis, Sue Midha, Catrin Morgan, Melanie Rimmer, Charlotte Shand, Tracey Stanley [o gofnod 734], Gail Thomas a Geoff Turnbull [hyd at gofnod 737].

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Kim Graham, Carol Merryman-Rees, Claire Morgan a'r Athro Damian Walford Davies.

### **729 Croeso**

Nodwyd Y Canlynol

- .1 agorodd y Cadeirydd wedi y cyfarfod a chroesawodd aelodau newydd a sylwedyddion i'r Pwyllgor;
- .2 roedd y Brifysgol yn nodi Mis Hanes Pobl Dduon gyda rhaglen o ddiwyddiadau ar gyfer y mis. Diolchwyd i gydweithwyr a siaradwyr am eu cyfraniad ac anogwyd pawb i gymryd rhan.

### **730 Cofnodion**

Derbyniwyd papur 19/643, 'Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' a gynhaliwyd ar 12 Mai 2020 a phapur 20/79, 'Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Prifysgol Caerdydd' a gynhaliwyd ar 11 Awst 2020.

Nodwyd Y Canlynol

- .1 cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2020 yn gofnod cywir ac y byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd;
- .2 na chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 11 Awst 2020 oherwydd i Bennaeth Cefnogi a Lles Myfyrwyr gynghori bod angen diwygio cofnod 726.7 ar bwynt o gywirdeb. Byddai'r cofnodion diwygiedig yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2021.

Nodwyd Ymhellach

- .3 mae'r Pennaeth Cefnogi a Lles Myfyrwyr, yn dilyn y cyfarfod, wedi rhoi eglurhad ar y ddarpariaeth gyfredol:

Os bydd myfyriwr yn gofyn am gynghorwr BAME, bydd y gwasanaeth yn ceisio cynnig hyn. Defnyddir sianeli recriwtio sydd wedi'u targedu at gymuned BAME ar gyfer swyddi gwag pan fyddant ar gael. Mae gan y gwasanaeth staff BAME cymwys ar gael os oes angen.

## 731 **Materion Yn Codi**

Derbyniwyd papur 20/80, 'Materion yn Codi'.

Nodwyd Y Canlynol

Strategaeth Ehangu Cyfranogiad [cofnod 720.3]

- 731.1 mae'r Uwch Gynghorydd Cydymffurfio wedi ymuno â'r Grŵp Strategaeth Ehangu Cyfranogiad ac mae dull llywodraethu'r strategaeth i'w benderfynu;

Mesurau Effaith Covid-19 Ar Amgylchedd Gwaith Staff 'Ein Straeon, Prosiect Gwrando: effaith COVID-19 ar gydraddoldeb' [cofnod 724.5]

- 731.2 cymerwyd camau i sicrhau y gellir codi pryderon ynghylch cynnwys unrhyw stori a ddatgelir gydag AD mewn modd priodol;

Diweddariad ar Gefnogi a Lles Myfyrwyr [cofnod 726.6]

- 731.3 mae darparu dadansoddiad cynhwysfawr yn ôl nodweddion gwarchoddedig o fyfyrwyr sy'n derbyn cefnogaeth ar draws y gwasanaeth yn gyfyngedig oherwydd hen systemau TG. Rhagwelir y bydd y system rheoli achosion newydd sy'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd yn helpu i ddarparu data manylach a defnyddiol ar gyfer adroddiadau rheolwyr yn y dyfodol;

- 731.4 mae'r galw am y gwasanaeth Cynghori a'r gefnogaeth ehangach a ddarperir gan Gefnogi a Lles Myfyrwyr wedi bod yn sylweddol trwy ddechrau'r haf a'r flwyddyn academaidd. Mae anghenion iechyd meddwl cymhleth, ymosodiadau rhywiol a thrais domestig yn parhau i fod yn gyffredin ymhlith y rhai sy'n ceisio cefnogaeth. Effeithiodd y pandemig presennol ar gyllid gan fod llai o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ran-amser ac felly bu galw cynyddol ar y gronfa caledi;

Adolygu Blaenoriaethau Ar Gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Amcan 4 [cofnod 727.4.6]

- 731.5 mae Ceri Davies, Pennaeth Pensaernïaeth TG wedi'i phenodi i gynrychioli TG yn y Pwyllgor ar sail ad hoc;

Cynllun Cydraddoldeb Strategol - amcanion [cofnod 727.6]

- 731.6 mae Cadeirydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol wedi codi mater riportio digwyddiadau hilio ac mae'n trafod gydag AD;
- 731.7 codwyd ymholiad ynghylch canlyniadau peidio â chwblhau hyfforddiant gorfodol, yn enwedig Deall Rhagfarn Anymwybodol. Nodwyd bod nifer o bwysau ar arferion gwaith cyfredol staff a dylid annog pawb i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol.
- 732 **Eitemau gan y Cadeirydd**
- Derbyniwyd papur 20/81, 'Aelodaeth, presenoldeb swyddogion a Chylch Gorchwyl'.
- Nodwyd Y Canlynol
- 732.1 Adolygiad Powell 2020
- .1 yng ngoleuni Adolygiad Powell o arferion llywodraethu'r Brifysgol, cynhaliwyd adolygiad o swyddogion y Pwyllgor;
  - .2 mae'r Cadeirydd wedi nodi'r adrannau y mae disgwyl i swyddog ynddynt fynychu cyfarfodydd Pwyllgor - Ystadau, Adnoddau Dynol, Cydymffurfio a Risg, Cefnogi a Lles Myfyrwyr a Chyfathrebu a Marchnata;
- 732.2 Aelodau 2020-21
- cafodd effeithlonrwydd cyfarfod y Pwyllgor ei ystyried a gofynnwyd i'r aelodau roi unrhyw awgrymiadau pellach i'w wella i'r Cadeirydd;
- 732.3 Datganiad Blynyddol ar Gynnydd a Chynlluniau EDI
- rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar ar y llwyddiannau dros y flwyddyn gan gynnwys:
- mae'r Brifysgol yn 10<sup>fed</sup> ym mynegai Stonewall UK o gydraddoldeb yn y gweithle, y sefydliad Addysg Uwch ar y brig, ac yn un o Gyflogwyr Pobl Draws gorau. Dyfarnwyd Grŵp Rhwydwaith y Flwyddyn 2020 i Enfys;
  - mae'r Canllaw Adnoddau Cydraddoldeb Hiliol wedi'i gyhoeddi ac ynghyd â'r astudiaeth achos ymarfer cadarnhaol ar ein Panel Goruchwyllo Cydraddoldeb Hiliol, bydd yn cael ei gynnwys yng nghanllaw UUK sydd ar ddod. Diolchwyd i'r Uwch Gynghorydd Cydymffurfio, Hil, Crefydd a Chred a chydweithwyr eraill am eu cyfraniad i'r adnodd hwn;
  - cwblhawyd a chyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 cyn y dyddiad cau;

- Mae Gwasanaethau Myfyrwyr a Lles wedi llwyddo i gyflwyno llety LGBT a Chyfeillion i fyfyrwyr;
- Mae gweithdai ED&I sy'n canolbwyntio ar sicrhau tegwch yn y broses REF wedi'u cyflwyno i fwyafrif y staff academiaidd sy'n ymwneud â REF ledled y Brifysgol, estynnwyd diolch i'r Uwch Gynghorydd Cydymffurfio, Cyhoeddus ac Academiaidd ac i Ddeon Ymchwil, Arloesi a Menter y Coleg (AHSS ).

733

**Diweddariad ar Wasanaethau Coleg/Proffesiynol**

Rhoddodd yr Athro Rudolf Allemann, PVC ddiweddariad ar ran Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg ar fentrau a gweithgareddau EDI yn y Coleg.

Nodwyd Y Canlynol

733.1

mae Rhwydwaith EDI y Coleg yn bodoli ers 2016 ac ers 2018 wedi cael ei arwain gan academydd, yr Athro Tim Phillips - Pennaeth yr Ysgol Mathemateg ac roedd gwaith y Rhwydwaith yn eitem sefydlog ar agenda Bwrdd y Coleg;

733.2

mae EDI yn ystyriaeth allweddol yng ngweithgareddau'r Coleg gan gynnwys:

- y broses ADP a sut y gellid defnyddio hyn i gefnogi EDI
- hygyrchedd a phrofiad Diwrnodau Agored
- roedd y wybodaeth a gynhwysir ar y cardiau z lechyd Meddwl, a lanswyd yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol, yn edrych ar fod ar gael ar-lein, trwy ap
- roedd yr Uwch Gynghorydd Cydymffurfio ynghylch Hil, Crefydd a Chred wedi mynychu cyfarfod rhwydwaith ac roedd pedwar aelod o staff y Coleg wedi dod yn aelodau o'r Panel Llywio Cydraddoldeb Hiliol
- Mae materion yn cael eu codi a gwaith yn cael ei drafod gydag AD ac Ystadau mewn perthynas ag aelodaeth y Brifysgol o'r Fforwm Busnes Anabled;

734

**Rhwydwaith Staff BAME+**

Derbyniwyd cyflwyniad ar lafar gan Michelle Alexis, Cadeirydd Rhwydwaith Staff BAME +.

Nodwyd Y Canlynol

734.1

nod y rhwydwaith yw darparu llais i staff BAME, lle diogel, hyrwyddo cyflawniadau staff BAME a datblygu a chyflawni mentrau;

- 734.2 roedd aelodaeth y rhwydwaith wedi cynyddu hyd at 53 (cynnydd o 23% ers 2018) ac roedd ymgysylltiad ag aelodau wedi cynyddu yn ystod y cyfnod clo;
- 734.3 roedd digwyddiadau a gweithgareddau'r rhwydwaith yn y gorffennol a'r dyfodol yn cynnwys:
- yn dilyn y newid enw i Rwydwaith Staff BAME+, cafodd logo ei greu fel brand i'r rhwydwaith
  - roedd y profiad gwaith a gynigiwyd i Ysgol Uwchradd Cathays wedi digwydd ac wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda'r Arglwydd Faer yn bresennol i gyflwyno tystysgrifau i'r cyfranogwyr
  - gwnaed cysylltiadau yn y gymuned, roedd y Cadeirydd wedi cymryd rhan yn Sesiwn Sgwrsio a Grymuso Panel Gyrfaoedd a Modelau Rôl Grangetown ym mis Gorffennaf 2020 ac wedi ymweld â Chlwb Bocsiio Tiger Bay ym mis Awst 2020, ac roeddent i fod i ddod i siarad â staff.
  - cynhaliwyd sesiwn gymorth ar gyfer staff BAME+ yn dilyn mudiad BLM ac roedd boreau coffi anffurfiol misol wedi'u cynllunio hyd at ddiwedd y flwyddyn
  - roedd cyfres o gyflawniadau Dathlu staff wedi cychwyn gyda chyfraniadau hyd yma gan David Gyimah-Dunkley a Susan Cousins
  - cynlluniwyd Cyfres o Siaradwyr Allanol: Panel Cyngori Is-Sahara Gwasanaeth Carchardai EM, Cymru Amrywiol
  - roedd y rhwydwaith wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Waith Celf y Brifysgol ym mis Medi;
- 734.4 gwnaed cynnig y gallai rhai o aelodau presennol y Cyngor fod yn barod i gyfrannu fel siaradwyr i'r rhwydwaith ac roedd y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol yn hapus i fynd atynt ar ran y rhwydwaith;
- 734.5 cafodd Cadeirydd y rhwydwaith Staff BAME+ ei longyfarch ar gyflawniadau'r rhwydwaith a chydabuwyd bod y rôl wirfoddol hon yn ychwanegol at rôl sylweddol y Cadeirydd a bod y cyfraniad a wnaeth y Cadeiryddion yn hanfodol.
- 735 **Diweddariadau undeb y Myfyrwyr:**
- Derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Georgie East, Jude Pickett a Jane Chukwu ar weithgareddau Undeb y Myfyrwyr.
- Nodwyd Y Canlynol

735.1 mae'r tîm newydd o swyddogion sabothol ac ymgyrchu bellach ar waith ac mae gwaith wedi'i wneud i gefnogi myfyrwyr a chyflawni gweithredoedd UM;

735.2 roedd pwyntiau nodyn a gweithgareddau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys y canlynol:

- roedd adeilad UM ar agor ac roedd myfyrwyr yn cael eu croesawu
- roedd ffyrdd newydd o gysylltu ag unigolion, yn enwedig ynghylch cymdeithasau a chwaraeon, yn cael eu cyflwyno ond roedd yn rhy gynnar i gael darlun clir o'u heffeithiolrwydd
- roedd y Swyddog Ymgyrch Anableddau yn gweithio i gynnal arolwg o fyfyrwyr anabl am eu profiad yn yr amgylchedd academaidd presennol
- roedd y Prosiect Cyfnodau mewn Tlodi yn rhedeg, gan gyflenwi cynhyrchion misglwyf i'r rhai mewn caledi
- cyfrannu at yr adolygiad o'r Weithdrefn Gwynion a mynd i'r afael â'r amser aros
- nodi diwrnod Iechyd Meddwl y Byd a darparu adnoddau a chefnogaeth i'r rhai sy'n profi unigrwydd ac arwahanrwydd
- gwneud Mis Hanes Pobl Dduon yn ddigwyddiad trwy gydol y flwyddyn
- gweithio gyda myfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru i roi adborth i Lywodraeth Cymru ar faterion yn y Gymuned BAME
- Roedd blogiau yn seiliedig ar groestoriadoldeb yn cael eu lansio i godi ymwybyddiaeth ac estyn allan i fyfyrwyr;

735.3 cynhaliwyd trafodaeth ynghylch cefnogi myfyrwyr ynglŷn â materion iechyd meddwl ac ynysu yn benodol a sut y gallai aelodau'r Brifysgol weithio i gefnogi hyn e.e. cynfyfyrwyr. Byddai'r Prif Swyddog Gweithredu yn ystyried hyn ochr yn ochr â'r gefnogaeth gyfathrebu barhaus fel y grŵp Cyswllt Myfyrwyr a llinell gymorth rhieni.

### 736 **Trefn Busnes**

Cytunwyd i gymryd Agendwm 14 'Adroddiad Blynyddol gan Ystadau' ar ôl Agendwm 7 'Diweddariad Undeb y Myfyrwyr'.

### 737 **Adroddiad Blynyddol gan Ystadau**

Derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Geoff Turnbull, Dirprwy Gyfarwyddwr Ystadau (Gweithrediadau).

Nodwyd Y Canlynol

- 737.1 roedd yr archwiliad hygyrchedd i fod i ddechrau ddiwedd mis Hydref 2020 a bydd syrfewyr allanol yn ei wneud gyda chymorth syrfewyr mewnol;
- 737.2 mae'r gwaith a wnaed gan y tîm Ystadau ar sefydlu llwybrau o amgylch y campws a fyddai'n gydnaws â gofynion pellhau cymdeithasol wedi cael canlyniad cadarnhaol yn yr ystyr ei fod wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth am hygyrchedd yn gyffredinol;
- 737.3 roedd yr eitemau o bwys yn cynnwys:
- roedd y llwybr o gwmpas a mynediad i Adeilad John Percival yn anaddas i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion
  - roedd angen i lanweithyddion dwylo fod ar lefel mainc y gegin
  - roedd yr holl gyfleusterau ystafell ymolchi sydd ar gael ar hyn o bryd yn niwtral o ran rhyw ac mae'n bosibl darparu rhagor os bydd angen
  - roedd ystafelloedd tawel wedi aros ar gael
  - byddai amserlen ddiwygiedig yr archwiliad hygyrchedd yn cael ei rhannu.

### 738 **Grŵp Llywio Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau**

Derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Helen Obee Reardon, Cadeirydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau.

Nodwyd Y Canlynol

- 738.1 Athena Swan
- .1 mae'r Brifysgol wedi gwneud cais am estyniad i gyflwyno ei chais, fel yr oedd sawl ysgol;
  - .2 roedd yr Ysgol Fusnes yn cyflwyno eu cais am wobwr Efydd a'r Ysgol Deintyddiaeth am wobwr Arian ym mis Tachwedd 2020;
  - .3 mae cynlluniau gweithredu wedi'u hadolygu a'u diwygio lle bo angen yng ngoleuni effaith COVID-19
- 738.2 Arolwg Staff
- byddai rhyw yn cael ei ystyried pan fo'n gysylltiedig â data demograffig arall;
- 738.3 Prosiect cydraddoldebau
- .1 derbyniwyd straeon, rhai cadarnhaol a negyddol a chodwyd materion mwy difrifol sydd wedi cael eu cyfeirio at AD;

- .2 nodwyd na dderbyniwyd cyfraniadau gan staff rheng flaen ac y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi ar sut i estyn allan atynt;
- .3 mae pryder wedi'i godi ynghylch gwisgo gorchuddion wyneb;
- .4 diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau;

738.4 dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â gorchuddion wyneb at y Prif Swyddog Gweithredu a bod cynlluniau ar y gweill i lechyd Cyhoeddus Cymru siarad â staff y Brifysgol ar y pwnc hwn.

### 739 **Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol**

Derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Michelle Alexis, Cadeirydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol.

Nodwyd Y Canlynol

- 739.1 roedd gwaith ar y gweill gydag AD mewn perthynas â chynnwys staff BAME ar baneli cyfweld a chwestiynau cyfweliad. Byddai canlyniad hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol;
- 739.2 mae adolygiad o weithgaredd ar draws Ysgolion yn cael ei gynllunio i rannu arfer gorau ac ystyried sut y gellir llenwi unrhyw fylchau;
- 739.3 diolchwyd i Weithgor Cydraddoldeb Hiliol y Myfyrwyr am eu gwaith yn trefnu cyfres o ddarlithoedd i ddathlu Mis Hanes Pobl Dduon.

### 740 **Polisi Beichiogrwydd a Mamolaeth Myfyrwyr**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/82, 'Polisi Beichiogrwydd a Mamolaeth Myfyrwyr'.

Nodwyd Y Canlynol

- 740.1 roedd y diweddariadau allweddol i'r polisi i fod i darparu eglurder ynghylch pwy oedd y polisi'n berthnasol iddo, i wneud yr iaith yn gynhwysol ac i ystyried y gefnogaeth sydd ar gael;
- 740.2 mae ymgynghori wedi digwydd ac mae adborth wedi'i dderbyn a'i ymgorffori pan fo hynny'n briodol ac roedd ystyriaeth i'w rhoi ar gyfathrebu'r polisi newydd trwy'r fewnwyd a sianeli mewnol eraill gan gynnwys canllawiau Tiwtoriaid;
- 740.3 mae'r materion a godwyd gan y Pwyllgor i'w hystyried yn cynnwys:
  - egluro'r gefnogaeth i'r rhai sy'n penderfynu peidio â pharhau â'r beichiogrwydd
  - arweiniad i staff i roi gwybod i fyfyrwyr sy'n ystyried parhau â'r beichiogrwydd am unigolion cymwys ac nid yw staff i gyfleu barn bersonol



- gwell dealltwriaeth o effaith beichiogrwydd ac wrth gymhwysu amgylchiadau esgusodol
- egluro'r ddyletswydd gofal sy'n ddyledus i'r myfyriwr a'r ffetws/plentyn heb ei eni, y statws yswiriant wrth esgor dramor a materion sy'n effeithio ar fisâu.

### **Penderfynwyd y Canlynol**

740.4 cymeradwyo'r polisi yn ddarostyngedig i'r diwygiadau.

### **741 Arolwg Staff - Adroddiad EDI**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/83, 'Arolwg Staff - Adroddiad EDI'.

Nodwyd Y Canlynol

741.1 mae'r papur wedi cyflwyno manylion y dadansoddiadau demograffig a wnaed yn dilyn yr arolwg staff ym mis Tachwedd 2019. Roedd dadansoddiad o nodwedd neu groestoriadoldeb yn ôl llwybr gyrfa yn cynnig cyfle i dargedu cefnogaeth a nodi themâu cyffredin. Mae dangosfyrddau gwybodaeth wedi'u datblygu i dynnu a nodi meysydd i'w datblygu;

741.2 roedd yr eitemau allweddol a amlygwyd gan yr adroddiad yn cynnwys:

- Ymatebodd 32% o staff BAME, 80% o staff anabl, 82% o staff LHD, 52% o staff benywaidd a 48% o staff gwrywaidd i'r arolwg
- Roedd ymatebion staff gwrywaidd T&R, staff benywaidd T&S a staff anabl yn fwy negyddol na rhai eu cymheiriaid
- Derbyniwyd ymatebion negyddol mewn perthynas â staff benywaidd yn teimlo'n hyderus i adrodd am fwlio ac aflonyddu a dyrchafiadau academiaidd;

741.3 mae rhai o'r materion a godwyd eisoes yn cael sylw, yn benodol mae gwaith parhaus gyda datblygu yn y dyfodol wedi'i gynllunio ynghylch y broses dyrchafiadau academiaidd, lle mae data'n cael ei ddadelfennu fesul cam a'i ddadansoddi i ddylanwadu ar weithgaredd;

741.4 roedd dangosfyrddau pellach ar nodweddion a chategoriâu demograffig yn yr amserlen i'w cyflwyno a gofynnwyd i'r aelodau ddarparu unrhyw adborth ar y camau arfaethedig nesaf.

### **742 Llety Myfyrwyr LHDT+ A Chyfeillion**

Derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Ben Lewis, Pennaeth Cefnogi a Lles Myfyrwyr.

Nodwyd Y Canlynol

- 742.1 roedd 28 o fyfyrwyr wedi dewis yr opsiwn hwn y llynedd, gyda 24 eleni. Roedd tua 4-5 o sefydliadau addysg uwch eraill bellach yn cynnig yr opsiwn hwn yn eu llety;
- 742.2 ni chodwyd unrhyw bryderon lles gan drigolion y llynedd ac roedd cynlluniau'n cael eu hystyried i gynnal arolwg i ddal eu profiadau;
- 742.3 diolchwyd i'r Pennaeth Cymorth i Fyfyrwyr a'i dîm am eu gwaith yn treialu'r prosiect hwn ac nad oedd gan y Pwyllgor unrhyw wrthwynebiadau i'r prosiect hwn gael ei barhau fel arfer gweithredu safonol.

#### 743 **Polisi Ar Orchuddion Wyneb - Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/84, 'Defnyddio Gorchuddion Wyneb yn Adeiladau'r Brifysgol - Asesiad Effaith Cydraddoldeb'.

Nodwyd Y Canlynol

- 743.1 cafodd y papur hwn ei gyflwyno er gwybodaeth Roedd yn un o'r Aseidiadau Effaith cyntaf i gael eu cynnal ar y cyfnod clo a sefydlodd rai themâu cyffredin a fyddai'n berthnasol i weithgareddau eraill yn ymwneud â dychwelyd i'r campws a gweithio mewn ffordd wahanol;
- 743.2 bod pryderon wedi'u codi ynglŷn â'r disgwyliad i staff addysgu ymatal rhag gwisgo gorchuddion wyneb a chynigiwyd y dylid cyfeirio'r ymholiad hwn at y tîm lechyd a Diogelwch. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod y Brifysgol wedi cymryd ac yn parhau i gymryd arweiniad gan lechyd Cyhoeddus Cymru a bod y cyngor cyfredol sydd ar gael yn nodi yr ystyrir bod cyflwyno addysgu wyneb yn wyneb heb orchudd wyneb yn ddiogel i'r athro a'r myfyriwr os ydynt 2m i ffwrdd o'i gilydd.

#### 744 **Panel Goruchwylio Cydraddoldeb Hiliol - Adroddiad Blynyddol**

Derbyniwyd Papur 20/85 'Panel Goruchwylio Cydraddoldeb Hiliol - Adroddiad Blynyddol'.

Nodwyd bod cwestiynau wedi'u codi a fyddai'n cael sylw y tu allan i gyfarfod y pwyllgor.

#### 745 **Papurau er Gwybodaeth**

Derbyniwyd a Nodwyd y papurau canlynol:

20/86 - Rhwydweithiau Cydraddoldeb Gwasanaethau  
Coleg/Proffesiynol

20/87 - Diweddariadau Rhwydweithiau Cydraddoldeb Staff a  
Chyllidebau 2019-20

746 **Unrhyw fater arall**

Nodwyd bod cais wedi'i wneud ar ran Myfyrwyr Rhyngwladol i'r amserlen arholiadau gael ei darparu cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr gynllunio ar gyfer teithio. Bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn rhoi sylw i'r cais hwn.

748 **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf: 14 Ionawr 2021 am 13:30.